**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**28/11/01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0056 Ambiwlansys i Giwba/Ambulances for Cuba

28 Nov 2001 Raised by Richard Edwards, Helen Mary Jones

No Subscribers

*Ambiwlansys i Giwba*

*Mae'r Cynulliad hwn yn cymeradwyo'r cymorth dyngarol uniongyrchol a ddarperir gan yr elusen Salud International yn ei waith i ailadeiladu Gwasanaeth Ambiwlans Ciwba, ac yn croesawu'r cyfle i Gymru hybu cydweithrediad rhyngwladol trwy gynnig cymorth dyngarol. Rydym yn annog Aelodau i gefnogi'r fenter trwy gyfraniadau ariannol a chyfraniadau eraill.*

*Ambulances for Cuba*

*This Assembly commends the direct humanitarian aid provided by the charity Salud International in its work to rebuild the Cuban Ambulance service, and welcomes the opportunity for Wales to further international co-operation by offering humanitarian assistance. We encourage Members to support the initiative through financial and other contributions.*

# OPIN-2001-0048 Diolch i Arwerthiannau Da Byw yng Nghymru/ Giving thanks for Livestock Auctions in Wales

06 Nov 2001 Raised by Peter Rogers

5 Subscribers:

- Dafydd Wigley
- David Melding
- Jonathan Morgan LLB MSc FRSA
- Gareth Jones
- Rhodri Glyn Thomas

*Diolch i Arwerthiannau Da Byw yng Nghymru*

*Mae’r Cynulliad hwn yn cydnabod y cyfraniad unigryw a wneir gan y system arwerthu da byw i amaethyddiaeth yng Nghymru o ran sicrhau pris teg ar gyfer cynnyrch ffermwyr, ac yn diolch i’r tai arwerthu am eu cefnogaeth i’r diwydiant yn ystod argyfwng clwy’r traed a’r genau.*

*Giving thanks for Livestock Auctions in Wales*

*This Assembly recognises the unique contribution the livestock auction system makes to agriculture in Wales in securing a fair price for farmers’ produce, and thanks the auction houses for their support of the industry during the foot and mouth crisis.*

## OPIN-2001-0044 Cynnig i adeiladu ysgolion ar dir llygredig/ Proposal to build schools on contaminated land

24 Oct 2001 Raised by Gareth Jones

9 Subscribers:

- Dafydd Wigley
- Cynog Dafis
- Peter Rogers
- Owen John Thomas MA
- Geraint Davies
- Rhodri Glyn Thomas
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- Jocelyn Davies
- Helen Mary Jones

*Cynnig i adeiladu ysgolion ar dir llygredig.*

*Gan gyfeirio at y cynigion i adeiladu ysgolion ar dir llygredig yng Nghonwy a Chasnewydd, a chan gofio’r buddsoddiad sylweddol y mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi’i wneud yn swydd y Comisiynydd Plant, dylai Aelodau’r Cynulliad barchu ei safbwynt a chefnogi ei farn "…na ddylid bwrw ati â’r cynlluniau hyn ar eu ffurf bresennol."*

*Proposal to build schools on contaminated land.*

*With reference to the proposals to build schools on contaminated land in Conwy and Newport, and in view of the National Assembly’s considerable investment in the post of the Children’s Commisioner, Assembly members should show respect for his position and support his opinion that "…these schemes should not proceed in their present form."*